

Kirsty Williams AC/AM  
Y Gweinidog Addysg  
Minister for Education



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Lynne Neagle AC  
Cadeirydd  
Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc  
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

30 Awst 2019

Annwyl Lynne

### **Datblygu'r Cwricwlwm newydd i Gymru**

Hoffwn ddiolch i'r Pwyllgor Plant, Pobl ifanc ac Addysg am y cyfle i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am y Cwricwlwm newydd i Gymru.

Ers fy sesiwn dystiolaeth ddiwethaf gyda'r Pwyllgor, cyflawnwyd tair carreg filltir – (i) cyhoeddi'r Papur Gwyn ar y fframwaith deddfwriaethol arfaethedig; (ii) cyhoeddi'r Cwricwlwm a'r trefniadau Asesu drafft er mwyn cael adborth, gan barhau i gydlunio'r gwaith yn yr ystyr ehangaf bosibl; a (iii) cyhoeddi'r cynigion drafft er mwyn eu gwerthuso a'u gwella.

Mae'n rhaid i mi ganmol yr Ysgolion Arloesi a'r nifer helaeth o arbenigwyr addysgol sydd wedi cyfrannu cymaint er mwyn ein rhoi yn y sefyllfa hon. Mae'r ymatebion i'r adborth wedi dangos ein bod ar y trywydd iawn i ddarparu cwricwlwm a fydd yn galluogi ymarferwyr a gweithwyr proffesiynol i gyflawni ein huchelgeisiau ar gyfer dysgwyr yng Nghymru.

Rhoddir diweddariad isod, sy'n ymateb yn fanwl, lle rydym yn gallu gwneud hynny, ar y materion rydych wedi'u codi yn eich llythyr.

#### *Cwricwlwm 2022 – ymarfer adborth*

Mae'r broses o ddatblygu trefniadau'r cwricwlwm newydd yn mynd rhagddi'n gyflym. Ym mis Ebrill gwnaethom gyhoeddi Cwricwlwm i Gymru 2022. Yn ystod y cam cydlunio hwn, gwahoddwyd adborth gan ymarferwyr proffesiynol ac amrywiaeth eang o randdeiliaid er mwyn llywio cam mireinio'r canllawiau cwricwlwm drafft.

Daeth y cyfle i roi adborth ffurfiol i ben ar 19 Gorffennaf ac mae'r ymatebion wedi cael eu gwerthuso'n annibynnol. Cafodd Llywodraeth Cymru 1,680 o gyfraniadau ar-lein a thrwy e-

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

[Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru)  
[Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales](mailto:Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

bost gan ystod amrywiol o unigolion a sefydliadau. Daeth cyfran sylweddol o'r rhain gan ymarferwyr, athrawon, uwch-arweinwyr a llywodraethwyr. Cafwyd 116 o ymatebion eraill mewn ymateb i'r Arolwg Plant a Phobl Ifanc.

Yn ogystal â chyhoeddi'r deunyddiau cwricwlwm drafft, cynhaliodd y consortia rhanbarthol, gyda chymorth Llywodraeth Cymru, ddigwyddiadau ymgysylltu ar gyfer ysgolion, gan gynnwys penaethiaid, ymarferwyr a llywodraethwyr er mwyn eu helpu i ymgysylltu'n llawn â'r broses. Cynhaliwyd 25 o grwpiau ffocws gyda phlant a phobl ifanc hefyd er mwyn annog dysgwyr i gyfranogi yn yr ymgynghoriad ac ymateb iddo. Cafwyd digwyddiadau penodol hefyd â phwyslais ar gydraddoldeb ac amrywiaeth, yn ogystal â brechwast busnes.

Ar y cyfan, mae'r ymatebwyr yn gefnogol i'r cynigion ar gyfer y Cwricwlwm newydd i Gymru. Roedd llawer o'r ymatebwyr, gan gynnwys athrawon, yn croesawu llawer o agweddau, megis y pwyslais ar y pedwar diben, y grym ehangach a gynigir i athrawon o fewn y cwricwlwm, a rôl ehangach asesu ffurfiannol. Hefyd, cafwyd llawer o awgrymiadau ar gyfer ffyrdd y gellid gwella'r canllawiau drafft. Yn fras iawn, gellir rhannu'r adborth yn ôl dwy brif thema:

- Dylid symleiddio'r canllawiau, gan gynnwys yr iaith a'r cysyniadau a ddefnyddiwyd i gyfleu agweddau ar y cwricwlwm, a'r strwythur a'r dull cyflwyno.
- Byddai'r canllawiau'n elwa o fwy o ddyfnder a manylder mewn rhai manau er mwyn helpu ymarferwyr ac athrawon i ddeall sut i roi'r cwricwlwm ar waith.

Yn ogystal â gofyn am adborth drwy Hwb, rydym hefyd wedi ystyried adborth drwy'r llwybrau ymholi canlynol:

- Ysgolion arloesi
- Proses ymchwilio Gwella Ansawdd
- Adolygu'r blynyddoedd cynnar

Mae natur fanwl llawer o'r ymatebion, yn enwedig y rhai gan ymarferwyr, grwpiau diddordeb arbennig a sefydliadau'r sector cyhoeddus, yn rhoi adborth defnyddiol a her i'r broses fireinio. Bydd y canllawiau'n elwa'n sylweddol o'r adborth a'r cyfle i ystyried y cwricwlwm yn ei gyfanrwydd, yn hytrach nag ystyried pob elfen unigol ar wahân.

Gallaf roi gwybod i chi am y sefyllfa ddiweddaraf pan fyddaf yn dod gerbron y pwyllgor ar 18 Medi.

O ran ymateb i'r adborth sy'n arwain at gwblhau'r trefniadau newydd ar gyfer cyhoeddi ym mis Ionawr 2020, mae Llywodraeth Cymru, mewn cydweithrediad â Wavehill Consulting, yn nodi materion a themâu allweddol er mwyn eu mireinio. Bydd Ysgolion Arloesi, consortia rhanbarthol (yn cynrychioli Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac Awdurdodau Lleol), Estyn a Cymwysterau Cymru yn cyfrannu at gytuno ar ymagwedd glir a chynllun er mwyn eu mireinio dros yr hydref. Yn benodol, rhoddir ffocws ar y ffordd y gellir symleiddio'r canllawiau a'u gwneud yn fwy defnyddiol i'r proffesiwn addysgu.

Ymgwymerir â'r rhan fwyaf o'r gwaith hwn mewn gweithdai rhwng mis Medi a mis Tachwedd. Fel rhan o'r gwaith hwn, byddant yn gwneud y canlynol:

- Nodi'r materion allweddol sy'n deillio o'r adborth ac ymateb iddynt;
- Llunio newidiadau i'r canllawiau ar sail y newidiadau hynny;
- Adolygu'r holl newidiadau er mwyn sicrhau bod y canllawiau'n gydlynol ac yn gyson ag egwyddorion ac ethos y cwricwlwm newydd.

Er mwyn helpu'r broses fireinio, bydd yn cynnwys amrywiaeth o arbenigwyr, gan gynnwys:

- Dau gyfarfod o'r Grŵp Cwricwlwm ac Asesu, gan roi arbenigedd o ran dylunio cwricwlwm er mwyn cefnogi a llywio egwyddorion mireinio;
- Golygyddion dwyieithog er mwyn sicrhau eglurder a chysondeb y canllawiau yn eu cyfanrwydd;
- Arbenigwyr ar feysydd penodol a sefydliadau rhanddeiliaid i gefnogi'r broses o fireinio elfennau mwy technegol y canllawiau.

Yn ogystal, mae 16 o ysgolion arloesi wedi cael eu dewis o blith rhwydwaith arloesi presennol y cwricwlwm ym mhob un o'r pedwar rhanbarth er mwyn helpu ysgolion i gynllunio. Rhoddir cyllid (£30,000 rhwng mis Ebrill 2019 a mis Mawrth 2020) i ysgolion arloesi er mwyn cynllunio, treialu a phrofi'r Cwricwlwm newydd i Gymru yn barod ar gyfer 2022. Bydd yn ofynnol i ysgolion roi adborth am eu canfyddiadau a gweithio ar y cyd i ddatblygu canllawiau i bob ysgol.

Y canlynol yw'r meysydd ffocws ar gyfer ysgolion arloesi:

- Cydlyniaeth y Cwricwlwm ar lefel uwch-arweinyddiaeth
- Hydrinedd
- Dylunio ar lefel ysgol
- Cynnwys pob dysgwr
- Cynnydd y dysgu
- Asesu
- Goblygiadau i Ddysgu Proffesiynol
- Atebolrwydd

### *Dosbarthiadau chwech a Cholegau Addysg Bellach*

Mae rhwydwaith yr ysgolion arloesi wedi bod yn hanfodol i'r holl broses ac mae'r rhain yn cynnwys ysgolion â chweched dosbarth. Rydym hefyd wedi gweithio gyda Colegau Cymru yn ystod y broses o ddatblygu canllawiau'r Cwricwlwm i Gymru ac mae cynrychiolwyr addysg bellach wedi cymryd rhan yn y gwaith o ddatblygu pob un o fframweithiau'r canllawiau MDPH.

Mae swyddogion wedi cyfarfod â chynrychiolwyr addysg bellach yn ystod y broses ddatblygu a byddant yn parhau i weithio gyda'r sector wrth i'r canllawiau gael eu mireinio. Un o themâu'r adborth o addysg bellach oedd yr angen i sicrhau bod y broses bontio i addysg ôl-16 yn cael ei chefnogi'n effeithiol ym mhob rhan o'r cwricwlwm. Byddwn yn gweithio ar hyn gyda phartneriaid ym maes addysg bellach yn yr hydref ac yn sicrhau bod manteision cwricwlwm eang a heriol, a gyfeirir at bedwar diben y cwricwlwm, yn cael eu deall.

Mae Cymwysterau Cymru yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru a phartneriaid eraill er mwyn ystyried yr effaith y bydd y Cwricwlwm newydd i Gymru yn ei chael ar gymwysterau yn y dyfodol. Bydd yn ymgynghori ar ei ddull gweithredu arfaethedig yn hydref 2019.

### *Papur Gwyn*

Yn gynharach eleni, cyhoeddais *Cenhadaeth ein Cenedl: Cwricwlwm Gweddnewidiol*<sup>1</sup> er mwyn gofyn am farn ar y fframwaith deddfwriaethol arfaethedig a fydd yn sail i drefniadau'r

---

<sup>1</sup> <https://llyw.cymru/cenhadaeth-ein-cenedl-cwricwlwm-gweddnewidiol>

cwricwlwm newydd. Cynhaliwyd yr ymgynghoriad ar y Papur Gwyn rhwng 28 Ionawr a 25 Mawrth 2019, gan nodi'r cynigion deddfwriaethol i ategu'r cwricwlwm newydd. Ar y cyd ag ef, cyhoeddwyd Asesiad Effaith Integredig drafft ac Asesiad Effaith Rheoliadol drafft er mwyn cael sylwadau.

Penodwyd Arad Research i gwblhau dadansoddiad llawn o bob un o'r 2,000 o ymatebion a ddaeth i law. Ym mis Gorffennaf cyhoeddwyd adroddiad<sup>2</sup> yn crynhoi'r ymatebion ar wefan Llywodraeth Cymru.

Rydym wrthi'n ystyried yn ofalus y dystiolaeth a gasglwyd o'r ymatebion i'r Papur Gwyn ac yn parhau i weithio gyda'n partneriaid. Mae hyn yn hollbwysig er mwyn llywio ein polisi yn y dyfodol a sicrhau ein bod yn cynnig fframwaith deddfwriaethol sy'n llawn gefnogi ac yn gwireddu ein huchelgeisiau ar gyfer y cwricwlwm newydd. Byddaf yn rhoi gwybod i Aelodau'r Cynulliad am y ffordd rwyf yn bwriadu bwrw ymlaen â'r ddeddfwriaeth ym mis Medi.

I grynhoi, mae hyn yn cynnwys rhoi mwy o fanylion ar wyneb y Bil er mwyn deddfu ynglŷn ag elfennau penodol o fframwaith y cwricwlwm. Yn flaenorol, cynigiwyd y dylid deddfu ynglŷn â'r pedwar diben a'r Meysydd Dysgu a Phrofiad. Yn dilyn yr ymgynghoriad, byddaf yn cynnig deddfu ynglŷn ag agweddau penodol ar y fframwaith er mwyn sicrhau ehangder y dysgu a chefnogi cynnydd.

Rwyf hefyd yn bwriadu nodi'r disgwyliadau ar gyfer lleoliadau addysgol gwahanol yn ogystal ag ysgolion a gynhelir ac ysgolion arbennig a gynhelir. Mae hyn yn cynnwys disgwyliadau lleoliadau meithrin nas cynhelir, unedau cyfeirio disgyblion a lleoliadau addysg eraill y gall dysgwyr eu mynychu pan na fyddant yn gallu mynychu'r ysgol. Y nod yw sicrhau bod y Cwricwlwm newydd i Gymru ar gael i'r holl ddysgwyr, gan gynnig y cyfle iddynt wneud cynnydd mewn perthynas â'r pedwar diben.

Roedd llawer o'r ymatebion i'r Papur Gwyn yn ymwneud â'r hawl i dynnu dysgwyr yn ôl o Addysg Grefyddol ac Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb. Yn seiliedig ar y rhain, rwyf wedi gofyn i'm swyddogion ymgysylltu ymhellach â rhanddeiliaid allweddol ar y mater hwn. Fy mlaenoriaeth yw sicrhau bod pob dysgwr yn cael cyfle i ddysgu mewn ffordd briodol i'w oedran a fydd yn galluogi dysgwyr i ddod yn ddinasyddion gwybodus, iach ac egwyddorol yng Nghymru.

### *Cynigion asesu newydd a threfniadau gwerthuso a gwella*

Yn unol ag ethos *Dyfodol Llwyddiannus*, mae'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu newydd yn cael eu hadeiladu ar gynnydd dysgwyr. Felly, bydd ffocws ein trefniadau asesu newydd ar ddirnad cynnydd dysgwyr a defnyddio hyn er mwyn llywio camau nesaf y dysgu a'r addysgu. Mae cefnogi dysgwyr i ddeall sut maent yn perfformio a'r hyn y mae angen iddynt ei wneud er mwyn gwneud cynnydd yn ganolog i hyn.

Cyhoeddwyd y cynigion asesu i gasglu adborth ar 30 Ebrill 2019, gan nodi chwe egwyddor allweddol ar gyfer asesu:

- Diben asesu yw ategu cynnydd pob dysgwr ar hyd y continwmm dysgu a thuag at y pedwar diben.

---

<sup>2</sup> <https://llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2019-07/crynodeb-or-ymateb-cenhadaeth-ein-cenedl-cwricwlwm-gweddnewidiol.pdf>

- Dylid blaenoriaethu defnyddiau ffurfiannol o asesu er mwyn ategu dysgu ac addysgu.
- Dylid defnyddio amrywiaeth eang o dechnegau asesu er mwyn rhoi darlun o gynnydd ac anghenion dysgwr ym mhob rhan o'r cwricwlwm.
- Dylai ymarferwyr weithio gyda'i gilydd er mwyn meithrin dealltwriaeth wybodus, ddibynadwy, gywir a chyson o gynnydd dysgwyr er mwyn llywio'r dysgu a'r addysgu.
- Dylai dysgwyr chwarae rhan weithredol yn y broses dysgu ac asesu, gan gymryd cyfrifoldeb am eu dysgu eu hunain.
- Dylid rhannu gwybodaeth am gynnydd a chyflawniadau dysgwr yn effeithiol er mwyn ymgysylltu â dysgwyr, eu rhieni/gofalwyr ac ymarferwyr eraill wrth nodi a chefnogi eu camau nesaf.

Gan gydnabod bod angen i rwydwaith ehangach o ymarferwyr ystyried nifer o feysydd cyn y gellid eu mireinio ymhellach, mae is-grŵp Gwella Ansawdd wedi cael ei sefydlu er mwyn ystyried y meysydd canlynol yn fanylach:

- Rhannu gwybodaeth/adrodd i rieni
- Pontio
- Sicrhau cywirdeb a chysondeb ('cymedroli')

Mae'r Gweithgor Asesu a oedd gyfrifol am ddatblygu'r cynigion asesu wedi cael ei droi'n Grŵp Cynghori ar Asesu bellach, sydd wedi cael ei sefydlu er mwyn cael trosolwg o'r gwaith mireinio hwn. Mae'r aelodaeth yn cynnwys ymarferwyr o faes gwella ansawdd ac Ysgolion Arloesi yn ogystal ag ymarferwyr o leoliadau meithrin nas cynhelir a ariennir er mwyn sicrhau trafodaethau cyson o ran y cwricwlwm ac asesu.

Bydd y Grŵp Cynghori ar Asesu'n tynnu ynghyd yr adborth ehangach, allbwn o'r tri grŵp gwella ansawdd a mewnbwn gan yr arbenigwyr asesu er mwyn llunio canllawiau statudol arfaethedig ar gyfer asesu, a fydd ar gael ym mis Ionawr 2020.

Fel rhan o'n proses ehangach o ddiwygio'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu, mae ymarferwyr ac arbenigwyr o bob rhan o Gymru wrthi'n diweddarau deunyddiau presennol Ar Drywydd Dysgu<sup>3</sup>. Mae Grŵp Cynghori ar Drywydd Dysgu wedi cael ei sefydlu er mwyn ategu'r gwaith hwn, gyda'r cynrychiolwyr yn cynnwys ymchwilwyr gweithredol ac ymarferwyr ag arbenigedd yn y maes hwn. Roedd Map Llwybrau wedi'i ddiweddarau ac enghreifftiau o glipiau sy'n amlygu rhai o'r camau a'r cerrig milltir ar gael ar gyfer adborth ym mis Ebrill 2019 a chynhaliwyd digwyddiad ymgysylltu ar 4 Gorffennaf. Rydym wrthi'n dadansoddi'r adborth a ddaeth i law a gwneir rhagor o waith mireinio yn ddiweddarach y tymor hwn er mwyn cefnogi'r broses o gyhoeddi'r deunyddiau wedi'u diweddarau ym mis Ionawr 2020.

### *Trefniadau Gwerthuso a Gwella*

Ar wahân i'r gwaith uchod, rydym hefyd wedi bod yn datblygu trefniadau gwerthuso a gwella newydd i'w cyflwyno yn lle rhannau o'r system atebolrwydd bresennol. Mae hyn yn canolbwyntio ar ddeall pa mor dda y mae'r system addysg yn gweithio a sut i gefnogi ysgolion i wella o fewn y system honno.

Lluniwyd y trefniadau hyn sy'n datblygu ar y cyd â chydweithwyr mewn ysgolion, Estyn, awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol, gan ystyried gwaith ymchwil rhyngwladol. Maent wedi'u datblygu'n ofalus er mwyn sicrhau eu bod yn gyson â'r cwricwlwm newydd a'r

---

<sup>3</sup> Mae deunyddiau Ar Drywydd Dysgu yn helpu ymarferwyr i asesu sgiliau cyfathrebu a gwybyddol cynnar dysgwyr ag anawsterau dysgu dwys a lluosog

diwygiadau cysylltiedig ym maes Arweinyddiaeth, Dysgu Proffesiynol, Anghenion Dysgu Ychwanegol, a'r nod o gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg, ac yn helpu i'w gwireddu.

Ym mis Chwefror 2019, gwnaethom gyhoeddi ein cynigion drafft<sup>4</sup> ar gyfer gwerthuso a gwella er mwyn cefnogi ac annog cyfranogiad yn y camau nesaf. Yn ystod mis Mawrth, cawsom drafodaethau â phenaethiaid o bob cwr o Gymru mewn cyfres o gynadleddau cenedlaethol, ac rydym wedi cynnal sesiynau manwl â grwpiau o benaethiaid rhanbarthol ers hynny. Deallwn y bydd angen gwneud newidiadau sylweddol i ddiwylliant ac ymddygiadau ym mhob rhan o'r system addysg er mwyn bodloni ein disgwyliadau, ac nid ydym yn disgwyl i'r newidiadau hyn ddigwydd dros nos. Yn 2019-20, byddwn yn datblygu ac yn treialu'r dulliau gweithredu. Ein nod yw datblygu trefniadau sy'n creu diwylliant ac amodau a fydd yn sicrhau llwyddiant cyn cyflwyno Cwricwlwm i Gymru yn 2022.

Wrth wraidd y trefniadau gwerthuso a gwella y mae proses hunanwerthuso gadarn a pharhaus ar gyfer pob haen o'r system addysg. Bydd hyn, ynghyd ag ymgysylltu â chymheiriaid, yn cefnogi dysgu a gwelliant parhaus, yn ymgorffori cydweithredu ac yn llywio hunanwelliant er mwyn codi safonau i bob un o'n dysgwyr.

Rydym wedi gweithio gyda'n rhanddeiliaid ac ysgolion i ddatblygu Adnodd Gwerthuso a Gwella Cenedlaethol newydd er mwyn helpu ysgolion i ddatblygu'r ymddygiadau a'r arferion a fydd yn cefnogi ac yn ategu'r diwygiadau. Caiff yr adnodd hwn ei lansio ar ei ffurf drafft yn ystod yr hydref, a bydd grŵp bach o ysgolion yn gweithio'n agos gyda'u consortia rhanbarthol, Estyn ac Awdurdodau Lleol i'w dreialu, er mwyn ein helpu i'w ddatblygu i'w gyflwyno'n ehangach.

Rydym yn dechrau dileu'r pwyslais anghymesur hanesyddol ar un neu ddau o fesurau perfformiad ysgolion ar wahân, gan symud tuag at ddiwylliant lle y caiff ystod ehangach o ddangosyddion sy'n rhoi darlun gwell o'r profiad dysgu cyfan, cynnydd dysgwyr a'n huchelgeisiau ar gyfer y cwricwlwm newydd eu hystyried. Fel rhan o'r daith hon, rydym yn rhoi cyfres o fesurau perfformiad Cyfnod Allweddol 4 (CA4) dros dro ar waith, a ddatblygwyd mewn cydweithrediad â phenaethiaid a grwpiau o randdeiliaid allweddol o bob cwr o Gymru.

Bydd y mesurau newydd hyn, sy'n seiliedig ar sgoriau pwyntiau, yn dileu'r pwyslais a roddwyd ar fesurau trothwy lle mae llawer yn y fantol, sy'n arwain at ffocws cul ar ddysgwyr sydd ar y ffin rhwng gradd C a D. Yn lle hynny, byddant yn adlewyrchu cyfartaledd ysgol o sgoriau pwyntiau pob dysgwr unigol, yn hytrach na chanran sy'n cyrraedd lefel drothwy sylfaenol. Bwriedir i'r mesurau helpu i roi mwy o ddewis i ddysgwyr, gan roi gwerth ar anghenion a chyflawniad dysgwyr unigol. Bydd hyn yn helpu i gofnodi cynnydd pob dysgwr yn well. Er bod y mesurau dros dro yn ehangach er mwyn cyflawni'r nod hwn, mae gofynion presennol y cwricwlwm a'r disgwyliadau o ran darpariaeth yn parhau. Bydd mesurau pwysig yn ymwneud â llythrennedd, rhifedd a gwyddoniaeth yn parhau.

Cafodd canllawiau manwl ar y mesurau dros dro a'r newidiadau i'r dadansoddiadau a ddarperir i ysgolion eu cyhoeddi yn ddiweddar<sup>5</sup>. Dros y chwe mis nesaf, byddwn yn comisiynu prosiect ymchwil annibynnol i adolygu'r system mesur perfformiad. Bydd penderfyniadau am ddangosyddion yn y dyfodol, a'r systemau cysylltiedig a gyflwynir yn lle'r trefniadau dros dro, yn seiliedig ar y gwaith ymchwil hwn ar y cyd â'r ymatebion a geir i ymgynghoriad llawn ag ysgolion a rhanddeiliaid allweddol.

---

<sup>4</sup> <https://llyw.cymru/trefniadau-gwerthuso-gwella-ysgolion-atebolrwydd>

<sup>5</sup> <https://llyw.cymru/trefniadau-interim-perfformiad-ysgolion-yng-nghyfnod-allweddol-4>

Yn gynharach eleni gwnaethom gynnal ymgynghoriad ffurfiol ar newidiadau i'r gofynion o ran gosod targedau CA4<sup>6</sup>. Daw'r newidiadau hyn i rym o fis Medi 2019. Mae hyn yn golygu na fydd gofyniad statudol mwyach i osod targedau ar gyfer mesurau penodol yn CA4, a bydd nifer y targedau amhenodol yn cynyddu i chwech. Felly, bydd pob targed yn un lleol ar lefel yr ysgol. Mae hyn yn gam tuag at sybsidiaredd a mwy o ymreolaeth er mwyn i ysgolion hunanwella. Bydd targedau mwy hyblyg yn defnyddio barn broffesiynol athrawon a gwybodaeth eu disgyblion, gan helpu i ddatblygu targedau dilys sy'n cyfrannu at ddysgu'r dysgwyr mewn ffordd adeiladol. Yn nhymor yr hydref, byddwn yn darparu rhagor o wybodaeth am y ffordd y dylid ystyried y newidiadau hyn i'r Rheoliadau wrth osod targedau. Bydd y System Genedlaethol ar gyfer Categori Ysgolion yn parhau yn y dyfodol agos, a disgwylir i'r gyfres nesaf o ganlyniadau gael eu cyhoeddi ym mis Ionawr 2020.

Rydym eisoes wedi nodi y bydd angen datblygu'r system ar gyfer categorïddio i gyd-fynd â'r trefniadau Gwerthuso a Gwella newydd. Wrth ddatblygu unrhyw ddulliau gweithredu newydd dros y flwyddyn academaidd nesaf deallwn fod angen iddynt fod yn gyson â'r diwylliant newydd rydym yn ei greu. Felly, byddwn yn gweithio gydag ysgolion ledled Cymru i ystyried ffyrdd newydd o adnabod anghenion cymorth ysgolion o fis Medi 2019 – yn barod ar gyfer unrhyw newidiadau a gyflwynir yn ystod hydref 2020.

Mewn ymateb i argymhellion yr Arolygiaeth Dysgu<sup>7</sup>, mae Estyn wedi ymgynghori'n ddiweddar ar gam 1 o gyfnod pontio i'r trefniadau arolygu newydd a fydd yn gyson â'r cwricwlwm a'r trefniadau gwerthuso a gwella diwygiedig. Yn ystod cam 1 (mis Medi 2020 – mis Medi 2021), cynigir y dylid atal arolygiadau ysgolion yn rhannol, gyda'r ysgolion sy'n peri pryder yn dal i gael eu monitro. Yn ystod y cyfnod hwn, bydd Estyn yn cynnal ymweliadau ymgysylltu ag ysgolion er mwyn deall yn well sut mae ysgolion yn datblygu eu harferion mewn perthynas â'r cwricwlwm newydd a diwygiadau addysg eraill. Bydd hefyd yn caniatáu amser i fynd ar drywydd y newidiadau sydd eu hangen o fewn yr Arolygiaeth er mwyn symud ymlaen i ddiben newydd arolygu. Rydym yn aros am ganlyniad ymgynghoriad Estyn ar y cam hwn. Er mwyn cynorthwyo'r broses arfaethedig o atal arolygiadau ysgolion yn rhannol, bydd angen diwygio'r Rheoliadau arolygu amrywiol a chynhelir ymgynghoriad ar y cynnig hwnnw yn ystod yr hydref.

### *Gweithredu Effeithiol*

Er mwyn sicrhau y gweithredir y Cwricwlwm newydd i Gymru yn effeithiol, mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i sicrhau bod pob ymarferydd addysgol yn cael y cymorth sydd ei angen arno i gyflwyno'r trefniadau newydd. Mae cydnabod a hyrwyddo rhagoriaeth addysgu yn un o amcanion allweddol *Cenhadaeth ein cenedl* a bydd yn hanfodol er mwyn rhoi'r cwricwlwm newydd ar waith.

Wrth wraidd y Dull Cenedlaethol y mae sicrhau bod cyllid digonol ar gael ar ei gyfer, yn cynnwys adnoddau ariannol ac amser i athrawon ac arweinwyr ymgysylltu â chyfluoedd datblygu proffesiynol o ansawdd uchel.

Rydym yn disgwyl i'r ffordd y mae ein hymarferwyr yn meddwl am eu dysgu proffesiynol gael ei thrawsnewid yn llwyr yn sgil cyflwyno'r cwricwlwm newydd. Mae angen inni roi cymorth i ysgolion er mwyn eu galluogi i wneud y newid sylweddol hwn.

---

<sup>6</sup> <https://llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2019-07/crynodeb-or-ymatebion-newidiadau-i-ofynion-gosod-targedau-i-ysgolion.pdf>

<sup>7</sup> <https://www.estyn.llyw.cymru/arolygiaeth-dysgu>

Lansiwyd y Dull Cenedlaethol ar gyfer Dysgu Proffesiynol<sup>8</sup> yn ffurfiol yn 2018. Mae'r dull hwn ar gyfer dysgu proffesiynol yn gam allweddol yn y broses ddiwygio. Mae'n cyd-fynd â'r safonau proffesiynol newydd, dull gweithredu a model dysgu proffesiynol Ysgolion fel Sefydliadau sy'n Dysgu, i greu gweledigaeth addas ar gyfer y system addysg sy'n datblygu yng Nghymru i bob ymarferydd addysgol, nid dim ond athrawon. Rydym yn ymrwymedig i sicrhau bod pob ymarferydd yn cael y cymorth sydd ei angen arno i gyflwyno ein cwricwlwm gweddnewidiol newydd.

Rydym hefyd wedi rhyddhau pecyn cyllid gwell gwerth £24 miliwn yn ychwanegol er mwyn sicrhau bod pob ymarferydd yn barod ar gyfer cyflwyno cwricwlwm newydd yng Nghymru. Trosglwyddir y cyllid yn ei gyfanrwydd i ysgolion a gellir ei ddefnyddio'n hyblyg er mwyn galluogi ysgolion i weithio gyda'i gilydd mewn ffyrdd sy'n cydweddu i'w hanghenion eu hunain. Diben y cyllid yw creu'r amser a'r lle i ymarferwyr ac arweinwyr weithio gyda'i gilydd yn eu lleoliadau eu hunain ac mewn rhwydweithiau er mwyn paratoi ar gyfer y cwricwlwm newydd. Yn ogystal, gwnaethom ymgynghori ar gynigion i ymestyn y trefniadau HMS (Hyfforddiant mewn Swydd) i gyflwyno diwrnod HMS ychwanegol yn 2020.

Yn dilyn yr ymgynghoriad hwnnw cyhoeddwyd, fel rhan o'r pecyn ehangach i ategu'r broses o roi'r cwricwlwm newydd ar waith, mai ein bwriad yw rhoi diwrnod HMS ychwanegol i bob ysgol bob blwyddyn ar gyfer y tair blynedd nesaf yn ystod tymor yr haf yn benodol er mwyn rhoi mwy o amser i athrawon ar gyfer eu dysgu proffesiynol.

Cyflwynir y diwrnod HMS ychwanegol hwn drwy Reoliadau Addysg (Y Diwrnod Ysgol a'r Flwyddyn Ysgol) (Cymru) (Diwygio) 2019 sy'n mynd drwy'r Cynulliad ar hyn o bryd ac a ddaw i rym ar 1 Medi 2019. Dylid cynnal y diwrnod HMS ychwanegol cyntaf yn ystod tymor yr haf 2020.

Rydym yn cydnabod nad yw un diwrnod HMS ychwanegol yn ddigon ynddo'i hun. Oherwydd hynny, mae'r diwrnod HMS hwn ar gyfer Dysgu Ychwanegol yn rhan o becyn ehangach sy'n rhan o'n Dull Cenedlaethol ar gyfer Dysgu Proffesiynol, wedi'i ategu gan ein buddsoddiad ychwanegol gwerth £24 miliwn. Bydd Llywodraeth Cymru hefyd yn llunio adnoddau dwyieithog, digidol er mwyn ategu'r diwrnod HMS.

Mae ymgysylltu ag ysgolion mewn rhaglen Ymholi Proffesiynol Cydweithredol Beirniadol wedi bod yn un o nodweddion allweddol ein dull gweithredu. Un model 'ymholi' yw hwn, ac mae wedi bod yn llwyddiannus mewn ysgolion yng Nghymru a manau eraill, ond nid yr unig fodel ydyw, ac rydym yn croesawu ysgolion, rhanbarthau a phrifysgolion yn cydweithio ar fathau o ymholi a dysgu sy'n addas at ddibenion lleol a rhanbarthol. Rydym wedi achub ar y cyfle i weithio gydag amrywiaeth o bartneriaid addysg uwch ledled Cymru (Prifysgol Bangor, Prifysgol Metropolitan Caerdydd a PCYDDS) i ddatblygu ein hysgolion arloesi fel ymholwyr proffesiynol cydweithredol, beirniadol er mwyn cefnogi'r broses o drosglwyddo i system hunanwella. Fel rhan o'r Dull Cenedlaethol ar gyfer Dysgu Proffesiynol sy'n dod i'r amlwg, rydym hefyd yn ystyried datblygu rhaglen genedlaethol i gefnogi pob ymarferydd i ddod yn ymholwr proffesiynol, gan 'broffesiynoli ymarferwyr o'r newydd' drwy ofyn iddynt ymchwilio i'w harferion eu hunain. Bydd rôl arweinwyr ysgolion yn arbennig o bwysig wrth hwyluso a meithrin rhaglen ymholi genedlaethol.

Mae gan Gymru uchelgais hefyd fod pob ysgol yn datblygu fel sefydliad sy'n dysgu yn unol ag egwyddorion y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD). Mae gan ysgolion sy'n sefydliadau dysgu y gallu i addasu'n gyflymach ac ystyried dulliau gweithredu newydd, gyda'r nod o wella dysgu a chanlyniadau i'w holl ddysgwyr.

---

<sup>8</sup> <https://llyw.cymru/y-dull-cenedlaethol-ar-gyfer-dysgu-proffesiynol>



Mae model Ysgolion fel Sefydliadau sy'n Dysgu yng Nghymru yn canolbwyntio ar wireddu saith 'dimensiwn'. Mae ein partneriaeth hynod effeithiol ag OECD wedi bod yn hanfodol wrth gyflwyno dull Ysgolion fel Sefydliadau sy'n Dysgu pwrpasol ar gyfer Cymru. Cafodd dull yr Ysgolion fel Sefydliadau sy'n Dysgu yng Nghymru ei lunio ar y cyd ag ysgolion arloesi, consortia rhanbarthol, Estyn, yr Academi Genedlaethol Arweinyddiaeth ac OECD.

Mae'r ysgolion hynny a nodwyd fel galluogwyr cynnar dull yr Ysgolion fel Sefydliadau sy'n Dysgu bellach yn ategu'r gwaith yn y rhanbarthau wrth inni symud tuag at roi'r dull ar waith yn genedlaethol drwy lansio arolwg ar-lein awtomataidd i bob ysgol ei ddefnyddio.

Drwy bartneriaethau a hwylusir gan OECD, rydym hefyd wedi ymchwilio i ddull 'Spirals of Inquiry' British Columbia er mwyn gwreiddio Ysgolion fel Sefydliadau sy'n Dysgu ymhellach yng Nghymru.

Mae Cynorthwyr Addysgu yn rhan annatod o'n system addysg; ac ansawdd gweithlu ein hysgolion a wnaiff y gwahaniaeth wrth weddnewid bywydau pobl ifanc. Dros y misoedd diwethaf, ymgynghorwyd ar Safonau Proffesiynol newydd ar gyfer Cynorthwyr Addysgu<sup>9</sup>. Mae cydweithio ar ddatblygu Cynorthwyr Addysgu Lefel Uwch (CALU) a Llwybrau Dysgu Cynorthwyr Addysg yn parhau er mwyn sicrhau bod y llwybr dysgu a statws CALU yn cyd-fynd â'r Safonau Proffesiynol newydd ac yn unol â Fframwaith y Dull Cenedlaethol ar gyfer Dysgu Proffesiynol.

Mae ystod bresennol y diwygiadau yn cynyddu'r angen i sicrhau bod arweinwyr ysgolion wedi'u paratoi a'u cefnogi'n dda i arwain eu sefydliadau drwy'r newidiadau hyn. Mae Cenhadaeth ein Cenedl yn rhoi arweinyddiaeth wrth wraidd y diwygiadau ac mae 'Arweinyddiaeth sy'n Ysbrydoli' yn amcan galluogi allweddol.

Er mwyn cefnogi'r maes gwaith hwn, gwnaeth Llywodraeth Cymru sefydlu'r Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol. Yn bennaf, bydd yr Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol yn sefydliad strategol na fydd yn darparu rhaglenni arweinyddiaeth ond a fydd yn sicrhau ansawdd, yn cefnogi ac yn adeiladu ar yr hyn sydd ar gael yn barod, gan sicrhau bod y ddarpariaeth ar gael i bawb ond ei bod yn cael ei chyflwyno'n lleol gan sicrhau mynediad a darpariaeth gyfartal yn yr iaith ddewisol.

Byddwn yn parhau i hyfforddi a pharatoi penaethiaid y dyfodol drwy Raglen y Cymhwyster Proffesiynol Cenedlaethol ar gyfer Prifathrawiaeth, yn ogystal â chynnig hyfforddiant i uwch-dimau arwain drwy'r rhaglenni Arweinyddiaeth Ganol a Darpar Benaethiaid, sy'n cynnwys agweddau arwain a rheoli.

Mae Rhaglen Aelodau Cyswllt yr Academi hefyd wedi cael ei threialu sy'n cefnogi arweinwyr systemau mewn lleoliadau. Mae'r Academi yn ymrwymedig i ddefnyddio arbenigedd arweinwyr presennol a thyfu'r genhedlaeth bresennol a'r genhedlaeth nesaf o arweinwyr i Gymru drwy wella statws, morâl a balchder mewn bod yn arweinydd yn y system addysg yng Nghymru. Bydd ei dull o ddatblygu arweinyddiaeth yn anelu at rymuso arweinwyr i arwain y system drwy atgyfnerthu gwaith partneriaeth ym mhob rhan o'r sector.

### *Cymwysterau*

Cydnabyddir yn glir y gall fod angen newid cymwysterau er mwyn iddynt gyd-fynd â'r cwricwlwm newydd a'i ategu ac mae hyn yn rhoi cyfle newydd i ystyried natur a rôl cymwysterau i bobl ifanc rhwng 14 ac 16 oed.

---


<sup>9</sup> <https://llyw.cymru/safonau-proffesiynol-drafft-ar-gyfer-cynorthwyo-addysgu>

Mae Cymwysterau Cymru, ynghyd ag Estyn a sefydliadau addysgol allweddol eraill, yn cymryd rhan lawn mewn amrywiaeth eang o grwpiau rhanddeiliaid a sefydlwyd er mwyn datblygu a gweithredu'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu newydd. Mae hyn yn cynnwys cael cynrychiolwyr ym mhob grŵp Maes Dysgu a Phrofiad, Grŵp Cysondeb, Bwrdd Cyflawni Gweithredol a Bwrdd Newid, yn ogystal â'r Grŵp Cwricwlwm ac Asesu.

Mae Cymwysterau Cymru hefyd yn gweithio'n agos gydag ysgolion arloesi ac ymarferwyr eraill ar ddatblygu'r cwricwlwm, gan adolygu'r goblygiadau posibl i gymwysterau sy'n cael eu hastudio gan bobl ifanc rhwng 14 ac 16 oed. Fel y crybwyllwyd yn gynharach, yn yr hydref bydd Cymwysterau Cymru yn ymgynghori ar egwyddorion y cymwysterau i bobl ifanc rhwng 14 ac 16 oed sydd eu hangen er mwyn ategu'r cwricwlwm newydd yn yr hydref.

Edrychaf ymlaen at drafod y cynnydd a nodwyd uchod yn fanylach â'r Pwyllgor ar 18 Medi.

Yn gywir,

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'Kirsty Williams'.

**Kirsty Williams AC**  
Y Gweinidog Addysg